| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**YNYS MÔN 2026** |
| | **Cystadleuaeth 100 – Côr Cerdd Dant Bl.13 ac iau** |
| | **Hawl i Fyw, Dafydd Iwan** |

Rwyt ti'n edrych ar fy llun mewn cydymdeimlad
Rwyt ti'n gofyn 'Pam mae hyn yn gorfod bod?'
Rwyt ti'n colli ambell ddeigryn o dosturi
Ac rwyf innau'n ofni gweld yfory'n dod.

Do, mi welais y gwleidyddion yn mynd heibio
A phob un yn ysgwyd pen mor ddoeth, mor ddwys
Ac mi welais yr offeiriad yn penlinio
Cyn fy mhasio am and wyf i'n neb o bwys.

Ond mi glywais rai yn sôn am 'fynydd menyn'
Ac mi glywais rai yn sôn am 'lynnoedd llaeth'
Ond mi wn na fyddech chi sy'n Gristionogion
Yn caniatáu gwastraffu bwyd a maeth:

Ond fe'm ganwyd innau'n fab i fy rhieni
Ac mi glywais ddweud fod pawb yn blant i Dduw
Rwy'n frawd i ti, a thithau'n frawd i minnau
Pam na chaf fi hefyd hawl i fyw?